

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

BYDDWCH MWY



AR-ALWAD
ON-CALL

LLYFRYN CYFWELIAD
YMLADDWYR TÂN

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynlluniwyd y llyfryn byr hwn i'ch cynorthwyo wrth i chi baratoi ar gyfer proses gyfweld swydd Ymladdwr Tân Ar Alwad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Rydym yn ymrwymedig i recriwtio'r bobl orau i weithio â ni a chefnogi ein cymunedau. Er mwyn recriwtio'r gorau, rydym yn ymwybodol bod angen i ni roi pob cyfle i chi arddangos eich sgiliau i ni.

A fydddech cystal â chymryd peth amser i ddarllen y cyfarwyddyd hwn – cafodd ei ysgrifennu i'ch helpu chi i roi o'ch gorau yn y cyfweiliad. Mae'n egluro strwythur y cyfweiliad i chi yn ogystal â rhoi awgrymiadau gwerthfawr i chi am sut i baratoi. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ymarfer.

CYFARWYDDYD

Bwriad y broses gyfweld hon fydd edrych ar eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad mewn perthynas â gofynion y rôl.

Dylai rhan o'ch paratodau hefyd gynnwys cynllunio i gyrraedd y cyfweiliad mewn da o bryd. Dyma ychydig o ystyriaethau a fydd o bosib yn ddefnyddiol:-

Gwiriwch y gwahoddiad i sicrhau fod y dyddiad, amser, lleoliad a'r llwybr teithio cywir gyda chi.

Mae e'n ddefnyddiol i fynd â'r llythyr gwahoddiad gyda chi bob tro. Bydd y llythyr yn cynnwys enw a rhif ffôn y person y byddwch yn ei gyfarfod/ei chyfarfod. Os cewch eich hun yn sownd mewn traffig, yna rydych mewn sefyllfa i dynnu i'r ochr a gwneud galwad i hysbysu'r panel.

Bydd eich gwahoddiad hefyd yn dweud os bydd y panel yn gofyn i chi i ddod ag unrhyw beth â chi. Fel arfer byddwn yn gofyn i ymgeiswyr ddod â phrawf o'ch hunaniaeth.

PARATOI AR GYFER Y CYFWELIAD

Ymchwiliwch rywfaint i rôl Ymladdwr Tân Ar Alwad a'r Sefydliad.

Treuliwch ychydig o amser yn meddwl am esiamplau byddwch chi'n defnyddio a sut byddwch chi'n ateb cwestiynau arfaethedig. Mae'n bwysig fod pob ymgeisydd yn buddsoddi amser yn paratoi ar gyfer eu cyfweiliad. Gall pethau yr hoffech wneud fel rhan o'ch paratod o bosib gynnwys:-

Darlennwch drwy eich ffurflen CV – mae hyn yn eich helpu i gofio'r holl bethau cadarnhaol a gyflawnwyd gennych. Os ydych chi wedi gadael ysgol yn ddiweddar a does dim profiad gwaith gennych, canolbwyntiwch eich egni ar eich cyflawniadau yn yr ysgol ac unrhyw glybiau yr ydych chi, o bosib, yn aelod ohonynt.

Ymarferwch siarad am eich profiadau. Gall ymarfer areithio'n uchel am yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni fod o gymorth mawr. Pan ofynnir i chi roi esiamplau o'ch profiad yn y cyfweiliad, bydd yr ymarfer hwn yn eich helpu i siarad yn hyderus.



AR Y DIWRNOD

Caniatewch ddigon o amser i gyrraedd - trefnwch i fod yno 10 munud yn gynnar bob tro.

Os ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n hwyr, ffoniwch i ddweud wrth y panel cyn gynted â phosib, rhag ofn bod diffyg prydlondeb yn eich atal rhag cymryd rhan.

BETH I'W WISGO

Ni fyddwch yn cael eich asesu ar safon eich gwisg, fodd bynnag mae'n bwysig i chi fod yn lân a thwt ac wedi ystyried beth sy'n addas i'w wisgo i gyfweiliad. Os ydych chi'n edrych yn dda, rydych chi'n tueddu i deimlo'n dda hefyd. Cofiwch eich bod yn mynd i amgylchedd disgybledig ac os byddwch chi'n llwyddiannus yn y broses, bydd gofyn i chi lyngu at safonau gwisg lem o ran gwedd a gwisg.

STRWYTHUR Y CYFWELIAD

Bydd dau neu dri pherson ar y panel cyfweld. Eu rôl fydd eich cynorthwyo i ymlacio a'ch annog i roi o'ch gorau – bydd neb yn gofyn unrhyw beth i'ch baglu.

Bydd aelodau'r panel yn cychwyn drwy gyflwyno'u hunain ac egluro'r broses.

Ni fydd eich cyfweiliad yn para mwy na 35 munud a gofynnir 5 cwestiwn i chi. Gofynnir pob cwestiwn yn ei dro, a bydd nodiadau cyflawn yn cael eu cymryd i gofnodi'r hyn byddwch yn ei ddweud. Mae hyn yn sicrhau bod y panel yn cael cofnod cyflawn o'ch ymatebion a ddefnyddir wedyn i sgorio yn erbyn y meini prawf gosodedig.

Gofynnir yr un cwestiynau i bawb i sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Mae'n bwysig i ni gadw at y cwestiynau hyn a byddwn yn ceisio eich helpu chi i'w hateb mor gyflawn ag y medwch.

Peidiwch â chael eich temptio i ddyfeisio gwybodaeth er mwyn gwneud i chi edrych yn dda yn y cyfweiliad! Bydd y panel yn holi llawer o gwestiynau i chi i'ch cynorthwyo i archwilio eich profiadau ac adeiladu darlun o sut y gwnaethoch ymateb mewn sefyllfa - mae rhywun sydd wedi llunio gwybodaeth yn debyg o gael eu dal.

Bydd y cwestiynau yn amrywio o ran dull. Mae eich gallu i arddangos agwedd gadarnhaol lawer yn bwysicach na lle'r ydych wedi ennill eich profiadau. Gyda hyn mewn cof, os na chwsoch chi unrhyw brofiad gwaith ffurfiol, ni fydd hwn yn cyfrif yn eich erbyn - canolbwytich ar roi esiamplau o brofiadau eich bod yn falch ohonynt o'ch bywyd ysgol, coleg, prifysgol, cartref neu eich bywyd cymdeithasol.

I'ch cynorthwyo wrth roi cyfrif manwl o'ch profiad, dewiswch esiampl ddiweddar. Os yw'n ddiweddar, rydych yn fwy tebyg o allu cofio'r manylion a gallu siarad yn hyderus.

Ar ddiwedd y cyfweiliad bydd cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am y broses, y swydd neu'r Sefydliad.

Ymdrinnir â'r holl wybodaeth a rennir yn ystod y cyfweiliad yn gyfrinachol ac fe'i defnyddir at ddibenion y broses ddethol yn unig.

CWESTIYNAU YMARFER CYFWELIAD

Cewch ganfod rhai cwestiynau ymarfer islaw efallai y carech ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer y cyfweiliad. Er nad ydy'r cwestiynau penodol isod yn debyg o gael eu gofyn yn eich cyfweiliad, byddant yn eich helpu i archwilio rhai o'r profiadau a gawsoch ac i gyfarwyddo â'r arddull o gwestiynu sy'n debyg o gael ei ddefnyddio. Efallai y carech ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu wrando ar eich esiamplau a chynnig adborth i chi.

Eich ymrwymiad i weithio tuag at safonau uchel

- Rhowch enghraifft lle rydych wedi cwblhau tasg neu brosiect hyd safon uchel.
- Soniwch wrthym am achlysur lle roeddech yn anfodlon ar safon y gwaith a gyflawnwyd.

Disgrifiwch eich dull o ddysgu pethau newydd

- Soniwch wrthym am y tro olaf y dysgoch chi ryw beth.
- Rhowch enghraifft lle dysgodd eich cydweithwyr neu aelodau tîm gennych chi.

Disgrifiwch sut rydych yn gweithio â phobl sy'n wahanol i chi

- Dywedwch wrthyf am adeg pan ddangosoch ystyriaeth o anghenion rhywun a oedd yn wahanol i'ch rhai chithau, e.e. gweithio gyda grŵp oedran, cenedligrwydd, crefydd wahanol ac ati.

- Rhowch esiampl o achlysur lle roedd rhaid i chi newid eich dull cyfathrebu i gyflwyno gwybodaeth i rywun.

Disgrifiwch sut rydych chi'n gweithio â phobl eraill

- Rhowch esiampl i ni pan adeiladoch chi gydberthnasau newydd ag aelodau o dîm.
- Dywedwch wrthym am amser penodol lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm i gyflawni nod.

Gellir dilyn y cwestiwn hwn gan nifer o gwestiynau ymestynnol eraill sy'n eich annog i roi cyfrif llawn a gonest, megis:

'Beth oedd y sefyllfa?'

'Pa rôl fuoch yn chwarae?'

'Beth fu rhaid i'r tîm ei gyflawni?'

'Sut wnaethoch chi fynd i'r afael â'r dasg?'

'Pa ystyriaethau wnaethoch chi?'

'Pa gefnogaeth gawsoch chi?'

'Beth oedd y canlyniad?'

'Beth ddysgoch chi?'

'Sut ydych wedi defnyddio hwn ers hynny?'



GWERTHUSIAD

Byddwn yn ystyried gwybodaeth y cyfweiliad drwy ddefnyddio'r dull canlynol:

- Gwerthuso lefel yr ymchwil, sgiliau, cymwysterau a gwybodaeth h.y. cyfyngedig, rhywfaint o dystiolaeth a thystiolaeth eglur
- Dealltwriaeth o'r mathau o waith a ymgymeir ag ef o fewn ein cymunedau amrywiol o fewn ardal GTADC a'r angen i drin pawb yn deg ac yn foesol
- Dealltwriaeth o'r ymddygiad disgwyledig a pham bod y rhain yn bwysig
- Tystiolaeth o fod yn weithredol wrth adeiladu perthynas waith effeithiol
- Dealltwriaeth o anghenion safonau

O ganlyniad i'r sgoriau a ddyfernir yn ystod y cyfweiliad, byddwn ni'n penderfynu os byddwch yn penderfynu os cewch eich ystyried am gynnig cyflogaeth â GTADC.



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Tîm Recriwtio ac Asesu
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Llinell Recriwtio - 01443 232200
personél@decymru-tan.gov.uk



@SWFRS_Careers



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.decymru-tan.gov.uk